Urdd

**Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Caerffili a'r Cylch 2015**
**Cyfleoedd Arlwyo**

Tachwedd 2014

Annwyl Gyfaill

Amgaeaf wybodaeth ynglŷn â chyfleoedd arlwyo symudol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Caerffili a'r Cylch 2015 a gynhelir ar dir Llancaiach Fawr, Ffordd Gelligaer, Nelson CF46 6ER yn Bwrdeistref Sirol Caerffili rhwng 25 - 30 Mai 2015.

Mae'r wybodaeth amgaeedig yn rhoi gwybodaeth bellach ynglŷn â'r cyfleoedd arlwyo sydd ar gael yn yr Eisteddfod.

Mae rhai o'r unedau arlwyo ar gytundebau tair mlynedd felly ar gyfer 2015 rydym yn chwilio am arlwywyr i ddarparu'r unedau tebyg i'r isod ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhestr isod:

1 x Uned Crepes
1 x Uned Pysgod a Sglodion
1 x Wrap/Pizza neu debyg
1 x Uned Ysgytlaeth

Wrth ystyried ceisiadau byddwn yn rhoi pwyslais ar ansawdd y cynnyrch, y gwasanaeth, prisiau rhesymol ac ar ddelwedd yr unedau. **Gan bod yr Eisteddfod yn ŵyl Gymraeg ei hiaith, mae'n ofynnol bod yr holl arwyddion a bwydlenni yn y Gymraeg a bod staff sydd yn siarad Cymraeg ar gael ar bob adeg**.

Mae'r Urdd wedi ymrwymo i gynaladwyedd a lleihau gwastraff yn ystod wythnos yr Eisteddfod. Ceir manylion pellach yn y Canllaw Gwastraff Masnachol amgaeedig. Hoffwn hefyd eich annog i ddefnyddio nwyddau Masnach Deg a chynnig dewisiadau bwyta'n iach os yn bosib.

Os hoffech fanylion pellach, mae croeso i chi gysylltu ar y manylion isod. Dychwelwch yr amcan bris ar y ffurflen amgaeedig ynghyd ag unrhyw sylwadau drwy'r post neu e-bost i'r cyfeiriad isod erbyn dim hwyrach na **16 Ionawr 2015.**

Yn gywir,



**Morys Gruffydd**
**Trefnydd yr Eisteddfod**

**Nesta Jones**
Eisteddfod yr Urdd
Gwersyll yr Urdd Glan-llyn
Llanuwchllyn
Y Bala
Gwynedd
LL23 7ST
nesta@urdd.org
01678 541014

Cadeirydd: **Tudur Dylan Jones**
Prif Weithredwr: **Efa Gruffudd Jones**

**Cwmni Urdd Gobaith Cymru**, Rhif Cwmni: 263310,
Cwmni Cyfyngedig, Cofrestrwyd yng Nghymru,
Elusen Gofrestredig Rhif 524481

# Ffurflen Cynnig am Gytundeb Arlwyo

# Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd

Eisteddfod

**Manylion y Cwmni**

Enw Cofrestredig y Cwmni: ____________________________________________

Cyfeiriad: ________________________________________________________

____________________________________________Côd Post______________

Enw Person Cyswllt:_________________________________________________

Cyfeiriad (os yn wahanol i'r uchod): ________________________________________

____________________________________________Côd Post______________

Rhif Ffôn__________________________ Ffôn Symudol______________________

Cyfeiriad E-bost: ____________________________________________________

Enw'r Awdurdod Lleol lle mae'r cwmni wedi ei gofrestru gydag Adran Iechyd a Diogelwch yr Amgylchedd: ________________________________________________________

**Cynnig**

**Cynnig 2015** (heb gynnwys TAW) £___________________________

+ Taw @ 20% £___________________________

Cyfanswm: £___________________________

*Ychwanegwch bwydlenni yn dangos eich prisiau a'ch cynnyrch gyda'r ddogfen hon

## Yswiriant

Nodwch werth yr yswiriant:

Atebolrwydd Cyhoeddus: ______________________________

Atebolrwydd Cyflogwr: ______________________________

Atebolrwydd Cynnyrch (os yn berthnasol): ____________________

## Gwybodaeth Ychwanegol

Lefel Hyfforddiant Staff: ______________________________

Cydymffurfiaeth gyda Rheolau HACCP: ______________________________

Amgaeaf gopi o Asesiad Risg Iechyd a Diogelwch Diweddar (Rhowch ✓) ☐

### Yr Iaith Gymraeg

Drwy wneud cais am gytundeb rydych yn ymrwymo i sicrhau fod eich holl arwyddion a bwydlenni yn Gymraeg neu'n ddwyieithog a sicrhau fod siaradwyr Cymraeg yn bresennol ar yr uned arlwyo ar bob adeg.

**Llofnod:**______________________________

**Dyddiad:**______________________________

**Byddwn yn gofyn am dystiolaeth ffotograffig o'r arwyddion a bwydlenni Cymraeg / dwyieithog cyn dyfarnu'r cytundeb i'r arlwywyr llwyddiannus.**

Dychweler y ffurflen hon gyda chopïau o'ch bwydlenni at:

**Nesta Jones**
**Eisteddfod yr Urdd**
**Gwersyll yr Urdd Glan-llyn**
**Llanuwchllyn**
**Y Bala**
**Gwynedd**
**LL23 7ST**

**nesta@urdd.org**
**01678 541014**

Erbyn 16 Ionawr 2015 ar yr hwyraf.

